OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 413

## Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

*Deddf Plant 2004 (p. 31)*

**215.** Mae Deddf Plant 2004 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

**216.** Yn adran 9(4)(a)(**1**) (swyddogaethau'r Comisiynydd mewn perthynas â phobl ifanc penodol) yn lle "Children Act 1989" rhodder "Social Services and Well-being (Wales) Act 2014".

**217.** Yn adran 25(10)(b) (cydweithredu i wella llesiant: Cymru) yn lle is-baragraff (i) rhodder—

"(i) services under sections 105 to 118 and 176 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014; or".

**218.** Hepgorer adrannau 31 i 34 (Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru).

**219.** Yn adran 49 (taliadau i rieni maeth)—

(a) yn is-adran (1)(a), ar ôl y geiriau "Children Act 1989" mewnosoder "or section 81 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014";

(b) yn is-adran (1)(b) yn lle "that Act" rhodder "the Children Act 1989";

(c) yn is-adran (2) hepgorer y diffiniad o "local authority foster parent" a "voluntary organisation";

(d) yn is-adran (2) ar ôl y diffiniad o "appropriate person" mewnosoder—

""local authority foster parent" has the same meaning as in section 105(1) of the Children Act 1989;

"voluntary organisation" has the same meaning as in the Children Act 1989."

**220.** Yn adran 50A(**2**) (ymyrryd – Cymru)—

(a) yn is-adran (2) hepgorer paragraffau (a) a (b);

(b) yn is-adran (4) hepgorer y diffiniad o "social services functions".

**221.** Yn Atodlen 2, hepgorer paragraff 2(2)(b).

(**1**) Amnewidiwyd adran 9 gan baragraff 6(1) o Atodlen 5 i Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6).

(**2**) Mewnosodwyd adran 50A gan baragraff 7(1) a (3) o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1).